**ATODIAD B**

**DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2022/23**

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LlC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.

2. Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

3. Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLlR yn flynyddol, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLlR. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

   - Ar gyfer cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLlR ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.

   - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLlR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLlR ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLlR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.

   - Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLlR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.

   - Ble rhoddir asedau, oedd yn arfer bod yn brydlesau gweithredol, ar y fantolen ar 1af Ebrill 2022 oherwydd mabwysiadu SAARh 16, Safon Cyfrifeg Prydlesau, ac mae gwerth yr asedau hyn wedi eu haddasu i ystyried croniadau, taliadau o flaen llaw, premiwm a/neu ddisgownt, yna

addasir y gost DLlR blynyddol fel nad oes unrhyw newid i gyfanswm y gost i refeniw oherwydd y safon newydd hwn.

- Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu had-dalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLlR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC).

4. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2022/23 yn destun ffi DLlR hyd nes 2023/24.

5. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2022, mae'r gyllideb ar gyfer DLlR wedi ei bennu fel a ganlyn:

| | **31.03.2022 Amcan GCC £m** | **2022/23 Amcan DLlR £m** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008 | 131.2 | 5.2 |
| Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008 | 38.4 | 2.1 |
| Prydlesau a Menter Cyllid Preifat | 2.3 | 0.9 |
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol** | **171.9** | **8.2** |